



Home Office

CYFLYM, SICR, LLYM

**Canlyniadau newydd
am feddiant cyffuriau**



Cyflym, Sicr, Llym

Canlyniadau newydd am feddiant cyffuriau

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gartref
ar Orchymyn Ei Mawrhydi

Gorffennaf 2022

CP 723



© Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i: nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle'r ydym wedi nodi bod hawlfraint gwybodaeth yn eiddo i drydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn drugswitepaper@homeoffice.gov.uk.

ISBN 978-1-5286-3615-5

E02770972 07/22

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffeibrau wedi'u hailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	3
Crynodeb Gweithredol	5
Pennod 1: Cyflwyniad a dull gweithredu cyffredinol	6
Pennod 2: Haen 1	13
Pennod 3: Haen 2	16
Pennod 4: Haen 3	19
Pennod 5: Arferion gorau gweithredol a diwygiadau newydd ar gyfer Profion Cyffuriau ar ôl Arestio neu Gyhuddo	23
Atodiad A: Cwestiynau'r Ymgynghoriad	28
Atodiad B: Llyfryddiaeth	45

Rhagair y Gweinidog



Mae cyffuriau anghyfreithlon wrth wraidd niwed a gofid aruthrol ym mhob rhan o'n cymdeithas. Mae'r ystadegau'n ddychrynlyd. Bydd mwy o bobl yn marw bob blwyddyn o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau nag o ganlyniad i droseddau sy'n ymwneud â chyllyll a damweiniau traffig ar y ffyrdd gyda'i gilydd. Hefyd, mae cyffuriau'n achosi niwed enfawr i blant a phobl ifanc, gan effeithio ar eu hiechyd a'u gallu i weithio a dysgu. Mae cyfanswm y

gost i gymdeithas ac i drethdalwyr yn anferth hefyd, gan gyrraedd yn agos at £22 biliwn y flwyddyn yn Lloegr yn unig.¹

Ni all y niferoedd brawychus hyn, hyd yn oed, gyfleu graddfa'r drasiedi ddynol yn llawn, gyda bywydau a theuluoedd di-rif wedi'u difetha. Ein cenhadaeth yw troi'r llanw.

Mae mynd i'r afael â phroblem cyffuriau anghyfreithlon yn flaenoriaeth bwysig i mi ac i'r llywodraeth hon. Ym mis Gorffennaf 2021, roedd ein Cynllun Gorchfygu Troseddau yn nodi sut rydym yn gweithio i wneud ein cymunedau a'n strydoedd yn fwy diogel. Dilynwyd hyn ym mis Rhagfyr 2021 gan y strategaeth cyffuriau 10 mlynedd, 'O niwed i obaith', a oedd yn amlinellu ein cynllun i gwtogi ar droseddau sy'n ymwneud â chyffuriau ac achub bywydau. Mae ein strategaeth gyffuriau yn llym ond yn glyfar. Rydym wedi ymrwymo i leihau'r galw am gyffuriau a'r cyflenwad ohonynt drwy ymateb yn llymach i gadwyni cyflenwi troseddol, ynghyd â'r cynnydd mwyaf erioed mewn cyllid ar gyfer triniaeth cyffuriau. Mae £780 miliwn ychwanegol dros dair blynedd wedi'i ymrwymo'n benodol i ailadeiladu gwasanaethau trin ac adfer.

Ffocws y papur gwyn hwn yw lleihau'r galw am gyffuriau. Mae ein strategaeth cyffuriau yn ymrwymo i sicrhau newid cenedliadol yn y galw. Bydd hyn yn golygu lleihau'r defnydd cyffredinol o gyffuriau i'r lefel isaf ers 30 mlynedd o fewn cylch oes y strategaeth.

Mae'r papur gwyn hwn yn gam sylweddol tuag at gyflawni'r nod hwnnw. Rydym yn cynnig trefn newydd ar gyfer y ffordd y bydd y system cyfiawnder troseddol yn delio â throseddau meddiant cyffuriau ar gyfer defnyddwyr adloniadol, fel y'u gelwir. Adloniadol, achlysurol, heb fod yn gaeth – pa derminoleg bynnag a ddefnyddir – yn rhy aml caiff yr unigolion hyn eu gwarchod rhag cost ddynol y fasnach gyffuriau. Maent yn rhoi arian ym mhocedi gangiau cyffuriau peryglus, gan hybu trais ac achosi niwed cymdeithasol ehangach, gan gynnwys dinistr amgylcheddol a masnachu pobl.

¹Nid yw'r gost hon yn ystyried unrhyw newidiadau ers y dadansoddiad yn 2017/18, gan gynnwys nifer yr achosion. Mae hyn ym mhrisiau heddiw. Amcangyfrifwyd bod cyfanswm cost y niwed sy'n gysylltiedig â defnyddio cyffuriau anghyfreithlon yn Lloegr yn £19.3 biliwn yn 2017-18. Adolygiad y Fonesig Carol Black: Cam Un.

Hanfod y drefn newydd hon yw sicrhau bod defnyddwyr cyffuriau'n fwy tebygol o gael eu dal, ac y byddant yn wynebu canlyniadau llymach a mwy ystyrlon na heddiw. Rydym am weld ymyriadau cyflym a sicr yn cael eu rhoi ar waith sy'n gallu atal pobl rhag defnyddio cyffuriau ac, ochr yn ochr â mesurau eraill, yn gallu lleihau'r galw am gyffuriau.

Y Gwir Anrhydeddus Priti Patel AS
Ysgrifennydd Cartref


A handwritten signature in black ink, appearing to be 'Priti Patel', written in a cursive style.

Crynodeb Gweithredol

1. Mae cyffuriau'n anghyfreithlon am reswm. Maent yn niweidiol, gan effeithio ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl, perthnasoedd, rhagolygon gyrfa, a chymdeithas yn ehangach. Rhaid i unigolion sy'n defnyddio sylweddau anghyfreithlon adloniadol, fel y'u gelwir, ddeall eu bod nid yn unig yn peryglu eu hiechyd, ond hefyd yn ariannu troseddwr peryglus sy'n dibynnu ar ofn, camfanteisio a thrais.
2. Mae'r papur gwyn hwn yn cyflwyno fframwaith cynyddol, llym sydd wedi'i anelu at oedolion a gaiff eu dal â lefelau isel o gyffuriau adloniadol, fel y'u gelwir, yn eu meddiant. Mae'n cynnwys cyfuniad o gynigion ar gyfer deddfwriaeth, yn ogystal â meysydd ehangach i'w diwygio. Rydym yn gwahodd ystyriaeth ac ymateb drwy ymgynghoriad cyhoeddus sydd ar gael yn Atodiad A neu drwy'r ymgynghoriad ar-lein. [Mae'r ymgynghoriad ar-lein ar gael yma.](#)
3. Yn ei hanfod, mae'r papur gwyn hwn yn ymwneud â lleihau'r galw am gyffuriau a gwrthdroi'r cynnydd yn y defnydd o gyffuriau fel y bydd y defnydd cyffredinol ar ei isaf ers 30 mlynedd o fewn degawd. Mae'r papur gwyn hwn yn rhan bwysig o waith y llywodraeth i gyflawni'r nod hwn ond nid yw'n cynrychioli'r cyfan ohono.
4. Rydym yn cynnig diwygiadau i gryfhau ymateb plismona a'r system cyfiawnder troseddol i droseddau meddiant cyffuriau. Bydd fframwaith tair haen newydd yn berthnasol i bawb sy'n defnyddio cyffuriau, ac eithrio pan fydd gan ddefnyddwyr ddibyniaeth ar gyffuriau (a ddisgrifir gan y Fonesig Carol Black fel cyflwr iechyd cronig), sy'n golygu mai triniaeth yw'r ymyriad mwyaf perthnasol. Ein huchelgais yw sicrhau newid ymddygiad ar raddfa fawr a'n gweledigaeth yw gweithredu'r fframwaith ar raddfa fawr gyda chanlyniadau cyflym, clir a sicr.
5. Dylai canlyniadau fod yn llym, ond dylent hefyd fod yn deg ac yn ystyrllon. Lle y bo'n briodol, dylai pawb sy'n cyflawni trosedd meddiant cyffuriau am y tro cyntaf dderbyn ymyriad haen 1. Bydd ail drosedd meddiant cyffuriau yn arwain at ymyriad haen 2, a bydd trydydd trosedd yn arwain at ymyriad haen 3. Maent fel a ganlyn:
 - **Haen 1:** Dylid rhoi hysbysiad cosb benodedig i unigolyn yn hytrach na'i erlyn, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol iddo fynd ar gwrs ymwybyddiaeth o gyffuriau a thalu amdano. Os na fydd yn mynd ar y cwrs, bydd yn talu cosb ariannol uwch. Os na fydd yn talu, caiff y ddirwy ei chofrestru yn y llys ar gyfer camau gorfodi neu erlyn am y drosedd wreiddiol.
 - **Haen 2:** Yn hytrach na chael ei gyhuddo, byddai unigolyn yn cael cynnig rhybuddiad a fyddai'n cynnwys cyfnod o brofion cyffuriau gorfodol yn ogystal â mynd ar gwrs ymwybyddiaeth o gyffuriau ar gam pellach, lle bo hynny'n gymesur.
 - **Haen 3:** Mae'n debygol y byddai unigolyn yn cael ei gyhuddo am ei drosedd. Os ceir euogfarn, gellid gwneud cais am orchymyn llys sifil newydd a fyddai'n galluogi'r llys i osod yr amodau canlynol: (i) gorchymyn gwahardd; (ii) tag cyffuriau; (iii) atafaelu pasbort; a (iv) anghymhwysu trwydded yrru.
6. Hefyd, mae'r papur gwyn hwn yn cynnig rhai newidiadau pwysig i'r pwerau ar gyfer profi am gyffuriau ar ôl arestio er mwyn sicrhau y gall yr heddlu gynnal profion cyffuriau ar amrywiaeth ehangach o unigolion.

Pennod 1: Cyflwyniad a dull gweithredu cyffredinol

Trosolwg o strwythur yr haenau



Cyflwyniad

7. Mae'r papur hwn yn nodi cynigion y llywodraeth ar gyfer newidiadau pwysig i'r ffordd y mae'r system cyfiawnder troseddol yn mynd i'r afael â throseddau meddiant cyffuriau a gyflawnir gan oedolion yng Nghymru a Lloegr. Mae'n bosibl y bydd Haenau 1 a 3 yn berthnasol i'r Alban a Gogledd Iwerddon hefyd, a chaiff hynny ei benderfynu maes o law. Rydym yn croesawu ymgysylltu parhaus gan lywodraethau datganoledig a rhanddeiliaid ledled y DU.
8. Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd y llywodraeth ei strategaeth cyffuriau 10 mlynedd, '*O niwed i obaith*'. Roedd y strategaeth yn cynnwys tair blaenoriaeth strategol: torri cadwyni cyflenwi cyffuriau; cyflwyno system trin ac adfer o'r radd flaenaf; a lleihau'r galw am gyffuriau anghyfreithlon yn sylweddol.
9. Mae'r papur gwyn hwn yn canolbwyntio ar y flaenoriaeth olaf ac mae'n seiliedig ar ymrwymiad i wrthdroi'r cynnydd yn y defnydd o gyffuriau o fewn degawd, tuag at y lefel isaf ers 30 mlynedd. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen newid cenedliadol yn yr agweddau at gyffuriau a'r galw amdanynt fel bod llai o bobl yn cymryd cyffuriau neu'n cael eu denu i'w cymryd, a bod plant a phobl ifanc heddiw'n tyfu i fyny mewn amgylchedd iachach a mwy diogel.

Beth yw'r broblem?

Defnydd adloniadol o gyffuriau, fel y'i gelwir

10. Yn 2019/20, dywedodd dros dair miliwn o bobl yng Nghymru a Lloegr eu bod wedi defnyddio cyffuriau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf,² gan roi eu hunain mewn perygl, gwneud ein cymunedau'n llai diogel a rhoi elw proffidiol i droseddwr sy'n ysgogi cadwyn gyflenwi dreisgar a chamfanteisiol.
11. Yn gyson, canabis yw'r cyffur sydd wedi cael ei ddefnyddio fwyaf, wedyn cocên powdwr. Canfu Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr fod tua 2% o ddefnyddwyr cyffuriau yn ddefnyddwyr mynych yn 2019/20, gyda'r gyfran o ddefnyddwyr mynych yn uwch ymhlith carfannau iau.³
12. Y carfannau hyn o ddefnyddwyr adloniadol, fel y'u gelwir, sef y rhai nad ydynt wedi mynd yn ddibynnol ar gyffuriau eto, yw'r rhai y mae'r papur hwn yn canolbwyntio arnynt. Nid ydym yn ceisio mynd i'r afael â'r defnydd o gyffuriau anghyfreithlon gan blant yn y ddogfen hon, ac nid yw'r papur hwn ychwaith yn ceisio delio ag oedolion sy'n gaeth i gyffuriau a fyddai'n cael gwell sylw drwy driniaeth (er enghraifft, y 300,000 o unigolion yr amcangyfrif eu bod yn ddibynnol ar heroin a chrac chocên yn Lloegr).⁴
13. Mae'r llywodraeth yn pryderu am ddefnydd adloniadol o gyffuriau, fel y'i gelwir, am y rhesymau canlynol:

² Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, Camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru a Lloegr: y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020.

³ Diffinnir defnyddwyr mynych fel pobl sydd wedi cymryd unrhyw gyffur fwy nag unwaith mewn mis yn y flwyddyn ddiwethaf.

⁴ Public Health England (PHE), Estimates of opiate and crack cocaine use prevalence: 2016 to 2017.

- Mae'r defnydd cyffredinol o gyffuriau wedi cynyddu ers 2012/13,⁵ gan arwain at ganlyniadau trychinebus. Gwelsom gynnydd o 72% mewn marwolaethau cysylltiedig â gwenwyno gan gyffuriau rhwng 2011 (2,652 o farwolaethau) a 2020 (4,561 o farwolaethau).⁶
 - Bu cynnydd yn y defnydd o gyffuriau penodol gan oedolion ifanc a phlant⁷, sy'n dangos y posibilrwydd o 'normaleiddio'r' defnydd o gyffuriau ymhlith carfannau iau. Mae hyn yn peri pryder arbennig mewn perthynas â chanabis o ystyried y dystiolaeth o gysylltiad rhwng defnyddio canabis cryf a phroblemau iechyd meddwl, gan gynnwys seicosis.
 - Gwyddom fod nifer o ffactorau wedi cyfrannu at y cynnydd hwn yn y defnydd o gyffuriau anghyfreithlon, fel y nodwyd yn ymateb y llywodraeth i'r adolygiad annibynnol o gyffuriau gan y Fonesig Carol Black. Mae hyn yn cynnwys dirywiad mewn gwasanaethau trin a bygythiadau sylweddol gan fodolau cyflenwi gan gynnwys llinellau cyffuriau, sydd wedi cynyddu bedair gwaith ers 2017.⁸
 - Gwyddom hefyd o adolygiad pwysig y Fonesig Carol Black fod cysylltiadau clir rhwng y fasnach mewn cyffuriau adloniadol a thrais a chamfanteisio. Mae tua 70% o'r holl gangiau troseddu cyfundrefnol sy'n ymwneud â chyflenwi cyffuriau yn tueddu i gyflenwi sawl math o gyffuriau gyda'r hyn a elwir yn gyffuriau adloniadol (megis ecstasi, canabis, a chocên powdwr) a chyffuriau sy'n achosi mwy o niwed (gan gynnwys heroin a chrac) yn aml yn cael eu cyflenwi gyda'i gilydd.⁹
 - Mae cyffuriau'n gwneud cyfraniad allweddol at hybu troseddu. Credir bod tua 50% o ddynladdiadau'n gysylltiedig â chyffuriau mewn rhyw ffordd, a chredir bod bron hanner y troseddau meddiangar yn cael eu cyflawni gan bobl sy'n defnyddio cyffuriau.¹⁰
 - Mae defnydd o gyffuriau anghyfreithlon yn gwneud cymunedau'n llai diogel, gyda chysylltiadau ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn mannau cyhoeddus.
14. Yn rhy aml, caiff unigolion sy'n dewis defnyddio cyffuriau'n achlysurol eu gwarchod rhag cost ddynol y fasnach gyffuriau sydd o'u cwmpas, neu byddant yn ei hanwybyddu'n fwriadol. Maent yn rhoi arian ym mhocedi gangiau cyffuriau peryglus ac yn hybu trais, yn y DU ac ym mhob cwr o'r byd. Rydym am i hyn newid.

⁵ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, Camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru a Lloegr: y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020.

⁶ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), Marwolaethau cysylltiedig â gwenwyno gan gyffuriau yng Nghymru a Lloegr 2020.

⁷ NHS Digital, Smoking, Drinking and Drug Use among Young People in England 2018.

⁸ Government response to the independent review of drugs by Dame Carol Black - GOV.UK (www.gov.uk).


⁹ Adolygiad y Fonesig Carol Black ar Gyffuriau; Cam un.

¹⁰ Dynladdiadau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yw'r rhai lle mae'n hysbys bod y sawl sydd dan amheuaeth neu'r dioddefwr yn werthwr cyffuriau neu'n ddefnyddiwr cyffuriau, ei fod wedi cymryd cyffur, bod ganddo gymhelliad i gael gafael ar gyffuriau neu ddwyn elw cyffuriau neu ei fod yn ymwneud â chyffuriau mewn unrhyw ffordd.

Y drefn bresennol ar gyfer troseddau meddiant cyffuriau

15. Yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2021, cofnododd yr heddlu 166,618 o droseddau meddiant cyffuriau. Mae hyn yn cyfrif am 80% o'r troseddau cyffuriau a gofnodwyd gan yr heddlu, a 3% o'r holl droseddau.¹¹ Rydym wedi gweld cynnydd bach yng nghyfran y troseddau meddiant cyffuriau a gofnodwyd yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf.
16. Bydd y canlyniadau a bennir gan yr heddlu ar gyfer troseddau meddiant cyffuriau yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Fodd bynnag, rydym wedi gweld gostyngiad yng nghyfran y cyhuddiadau dros y blynyddoedd diwethaf a chynnydd bach mewn canlyniadau Dim Camau Pellach (DCP) ers 2014/15.
17. Yn 2021, cafodd 25,836 o unigolion eu cyhuddo¹² o droseddau meddiant cyffuriau. Cafodd 22,255 o unigolion eu dedfrydu,¹³ a chafodd 60% o'r bobl hynny ddirwy. Er nad ydym yn cwestiynu priodoldeb unrhyw ddedfryd benodol, nid yw'r drefn gyffredinol bresennol ar gyfer troseddau meddiant cyffuriau yn arwain at ganlyniadau digon sicr na chyson.

Canran y canlyniadau a bennwyd gan yr heddlu am droseddau meddiant cyffuriau rhwng 2014/15 a 2020/21



¹¹ Y Swyddfa Gartref, Troseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu: y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021.

¹² Y Swyddfa Gartref, Troseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu: y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021.

¹³ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Ystadegau Chwarterol y System Cyfiawnder Troseddol: Rhagfyr 2021.

18. Rydym hefyd yn pryderu ynghylch a yw'r system bresennol yn atal aildroseddu'n ddigonol. Gwyddom fod tua un o bob pump o oedolion sy'n cyflawni troseddau cyffuriau yn aildroseddu o fewn blwyddyn.¹⁴ O'r rhai sy'n aildroseddu, mae tua un o bob pedwar yn gysylltiedig â chyffuriau. Hefyd, gwyddom fod aildroseddu sy'n ymwneud â chyffuriau yn aml yn fwy problemus na mathau eraill o droseddau. Er enghraifft, mae ffigurau 2020 yn dweud wrthym fod 59% o'r rhai a gafodd rybuddiad am drosedd yn ymwneud â chyffuriau yn aildroseddwy, o gymharu â'r rhai a gafodd rybuddiad am bob math arall o drosedd (45%)¹⁵. Yn olaf, rydym yn pryderu bod y gyfradd aildroseddu ar gyfer troseddau sy'n ymwneud â chyffuriau wedi aros yn ystyfnig o sefydlog dros y degawd diwethaf, gan awgrymu bod angen diwygio.

Ein gweledigaeth ar gyfer diwygio

19. Mae'r papur hwn yn nodi cyfuniad o gynigion ar gyfer deddfwriaeth, yn ogystal â meysydd ehangach ar gyfer diwygio yr ydym yn gwahodd pobl i'w hystyried. Rydym am greu fframwaith tair haen newydd ar gyfer troseddau meddiant cyffuriau sy'n seiliedig ar yr egwyddorion allweddol canlynol:

- **Cyflymder a sicrwydd:** dylai pob unigolyn wybod pa ganlyniadau y bydd yn eu hwynebu, ac mae asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn cael eu cymell i ddefnyddio'r fframwaith, gan y gallant weithredu'n gyflym.
- **Cysondeb:** ni ddylai fod loteri cod post o ran y ffordd yr ymdrinnir â throseddau meddiant cyffuriau.
- **Newid ymddygiad:** dylai unigolion gael cyfle i newid eu hymddygiad ar bob cam o'r fframwaith newydd hwn.
- **Canlyniadau llym, teg ac ystyrlon:** dylai'r rhai sy'n dewis parhau i ddefnyddio cyffuriau wynebu canlyniadau cryfach a ddylai gynyddu i'r rhai sy'n parhau i droseddu a herio'r gyfraith. Ceir tystiolaeth gadarnhaol o effaith rhaglenni cyflym, sicr a theg ar y defnydd o gyffuriau ac aildroseddu ymhlith y boblogaeth brawf, a gallwn ddysgu gwersi o hyn a'u cymhwyso at y drefn newydd hon. Ni ddylai ychwaith fod unrhyw wahaniaeth yn y ffordd y caiff unigolion eu trin ar sail oed, rhywedd, ethnigrwydd a nodweddion gwarchoddedig eraill.
- **Seiliedig ar dystiolaeth a datblygu dystiolaeth:** dylai ymyriadau fod yn gadarn, ac yn seiliedig ar dystiolaeth, ond ni fyddwn yn osgoi cynnig syniadau newydd ac arloesol. Os bydd hyn yn golygu mai ni fydd y wlad gyntaf i ddatblygu sylfaen dystiolaeth ar gyfer ymyriad penodol, dyna a wnawn.

¹⁴ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder: Ystadegau aildroseddu profedig: Mehefin 2020.

¹⁵ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder: Ystadegau Chwarterol Gyfiawnder Troseddol: Mawrth 2021.

Dull gweithredu cyffredinol

20. Rydym yn cynnig fframwaith tair haen newydd ar gyfer troseddau meddiant cyffuriau a gyflawnir gan oedolion. At ddibenion y papur hwn, caiff trosedd meddiant cyffur rheoledig ei hystyried yn “Drosedd Berthnasol”.¹⁶ Bydd y fframwaith hwn yn berthnasol i bawb sydd â chyffur rheoledig yn eu meddiant, ac eithrio lle mae gan yr unigolyn ddibyniaeth ar gyffuriau (a ddisgrifir gan y Fonesig Carol Black fel cyflwr iechyd cronig) a lle mai triniaeth yw'r ymyriad mwyaf perthnasol.
21. Rydym yn cynnig, lle bo hynny'n briodol, y dylid defnyddio'r un ymyriad haen 1 i ymdrin â phob Trosedd Berthnasol tro cyntaf. Os bydd rhywun yn cyflawni ail Drosedd Berthnasol, bydd yn symud i ymyriad haen 2. Bydd trydydd Trosedd Berthnasol yn arwain at ymyriad haen 3. Dylai'r rhai a gaiff eu dal fwy na thair gwaith wynebu erlyniad troseddol. Rydym yn cynnig y dylid strwythuro'r haenau fel a ganlyn:
- **Haen 1:** Byddai'n ofynnol i unigolyn fynd ar gwrs ymwybyddiaeth o gyffuriau, a thalu amdano, a fyddai'n ei annog i ddeall effaith ei ddefnydd o gyffuriau arno ef ei hun, ar ei anwyliaid ac ar gymdeithas, ac i newid ei ymddygiad. Byddai methu â bodloni'r gofyniad hwn yn arwain at gosb ariannol fwy na chost cwrs ymwybyddiaeth. Os na fydd yn talu, caiff y ddirwy ei chofrestru yn y llys ar gyfer camau gorfodi neu erlyn am y drosedd wreiddiol.
 - **Haen 2:** Byddai unigolyn yn cael cynnig rhybuddiad a fyddai'n cynnwys, lle y bo'n gymesur, unigolyn yn gorfod cydymffurfio â chyfnod o brofion cyffuriau gorfodol a gynhelir ar hap. Hefyd, byddai disgwyl i unigolyn fynd ar gwrs ymwybyddiaeth o gyffuriau, ac rydym yn cynnig y dylai'r cwrs hwnnw fod yn fwy dwys na'r cwrs a gyflwynir ar haen 1 er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod trosedd wedi'i chyflawni fwy nag unwaith. Os na fydd yr unigolyn yn cydymffurfio, dylai gael ei erlyn am y drosedd wreiddiol.
 - **Haen 3:** Byddem yn disgwyl i drydydd Trosedd Berthnasol arwain at gyhuddiad. Rydym hefyd yn cynnig y dylid cyflwyno Gorchymyn Lleihau Cyffuriau, y gellid gwneud cais amdano yn dilyn euogfarn, a byddem unwaith eto'n gorfodi troseddwr i fynd ar gwrs ymwybyddiaeth o gyffuriau. Byddai un neu fwy o'r pedwar ymyriad canlynol yn gysylltiedig â'r Gorchymyn Lleihau Cyffuriau: gorchymyn gwahardd, tag cyffuriau, atafaelu pasbort, ac anghymhwysu trwydded yrru.
22. Mae sawl ffactor arall sy'n sail i'r fframwaith hwn:
- Dylid symud drwy'r haenau mewn modd llinol, sy'n golygu na fyddai unigolyn yn dechrau ar ymyriad haen 2 na haen 3 nac yn 'neidio' o haen 1 i haen 3. Mae'n bwysig bod gan unigolion a chydweithwyr ym maes plismona sicrwydd ynghylch ymyriadau os bydd aildroseddu. Mae hyn hefyd yn mynd i'r afael â phryderon ynghylch y nifer anghymesur o bobl ifanc o gefndiroedd ethnig lleiafrifol sy'n ymuno â'r system cyfiawnder troseddol o ganlyniad i droseddau meddiant cyffuriau tro cyntaf neu eildro.

¹⁶ Mae'n drosedd o dan adran 5(2) o Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 (“Deddf 1971”) i unigolyn fod â chyffur rheoledig (boed yn gyffur dosbarth A, dosbarth B neu ddosbarth C, fel y nodir yn Atodlen 2 i Ddeddf 1971) yn ei feddiant yn groes i adran 5(1) o'r Ddeddf honno. O dan adran 5(1) mae'n anghyfreithlon meddu ar gyffur rheoledig oni chaniateir hynny gan Reoliadau Camddefnyddio Cyffuriau 2001 (fel y'u diwygiwyd).

- Ar bob cam o'r fframwaith tair haen hwn, gall yr heddlu ddewis cyhuddo'r troseddwr os bydd yn teimlo bod hynny'n gosb fwy addas. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl gweld y rhan fwyaf o ddefnyddwyr cyffuriau adloniadol, fel y'u gelwir, yn symud drwy'r fframwaith tair haen.
- Ni ddylai unigolyn allu ailadrodd haen.
- Bydd methu â bodloni'r amodau a bennir o fewn haen yn arwain at ganlyniadau.

Ein huchelgais ar gyfer y diwygiadau hyn


23. Rydym eisoes wedi nodi'r egwyddorion y mae'r diwygiadau hyn yn seiliedig arnynt. Fodd bynnag, bydd eu llwyddiant hefyd yn dibynnu ar sicrhau canlyniadau cyfiawnder troseddol gwell. Rydym yn cynnig mesur dau faen prawf llwyddiant allweddol:
- **Lleihau'r defnydd o gyffuriau:** mae creu darlun cyfoethocach o ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon ledled y wlad yn her. Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn dal yn fesur defnyddiol o nifer yr achosion o ddefnyddio cyffuriau y byddwn yn parhau i'w fonitro, ond rydym hefyd yn bwriadu archwilio casgliadau data newydd i fesur effeithiau unrhyw sancsiynau newydd ar ddefnyddio cyffuriau ac adfer.
 - **Lleihau aildroseddu:** rydym am weld gostyngiad yn y gyfradd aildroseddu gyffredinol ar gyfer troseddau meddiant cyffuriau a gyflawnir gan oedolion. Mae gennym ddiddordeb arbennig yng nghyfraddau aildroseddu'r rhai sy'n cyflawni trosedd sy'n ymwneud â chyffuriau, ond byddem yn monitro aildroseddu o unrhyw fath, hyd yn oed os nad yw'n gysylltiedig â chyffuriau.
24. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid ar feini prawf llwyddiant eilaidd y gellid eu monitro. Yn benodol, hoffem ystyried ffyrdd gwell o asesu effaith ar niwed ac ar grwpiau nodweddion gwarchoddedig, yn enwedig hil.

Ledled y DU

25. Mae'r papur hwn yn cynnig newidiadau i'r ffordd y mae'r system cyfiawnder troseddol yn mynd i'r afael â throseddau meddiant cyffuriau a gyflawnir gan oedolion yng Nghymru a Lloegr. Gallai'r cynigion ar haenau 1 a 3 fod yn berthnasol ledled y DU gyfan.
26. Mae pwnc Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 wedi'i gadw yn yr Alban o dan gadwad B1 yn Atodlen 5 i Ddeddf yr Alban 1998 ac wedi'i gadw yng Ngogledd Iwerddon o dan baragraff 9(1)(f) o Atodlen 3 i Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998. Cedwir camddefnyddio cyffuriau neu sylweddau seicoweithredol yng Nghymru o dan adran B14 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
27. Dim ond yng Nghymru a Lloegr y byddai'r cynigion ar haen 2 yn berthnasol am fod cyfiawnder troseddol a phlisma yn faterion datganoledig yn yr Alban ac yn faterion a drosglwyddwyd yng Ngogledd Iwerddon. Felly, byddwn yn parhau i drafod hyd a lled daearyddol y cynigion gyda'r llywodraethau datganoledig, yn enwedig eu defnydd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, a'u rhyngweithio â gwasanaethau datganoledig, drwy gydol ein cyfnod ymgynghori.

Pennod 2: Haen 1

Haen 1 Trosedd meddiant cyffuriau gyntaf



Cyflwyniad

28. Bydd Haen 1 y fframwaith newydd hwn yn berthnasol y tro cyntaf i'r heddlu ddod ar draws unigolyn mewn perthynas â Throsedd Berthnasol. Gwyddom fod gweithredu cyflym a sicr yn cael mwy o effaith, ac mae angen i ni ddefnyddio'r cyfle hwn i sbarduno newid mewn ymddygiad. O'r herwydd, rydym yn cynnig, oni chredir bod erlyn yn fwy priodol, y bydd yn ofynnol i bob unigolyn fynd ar gwrs ymwybyddiaeth o gyffuriau yn hytrach na chael ei erlyn. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r unigolyn ddeall niwed cyffuriau anghyfreithlon ac effaith niweidiol ei ymddygiad arno ef ei hun ac ar gymdeithas yn ehangach.
29. Rydym hefyd yn cynnig y bydd yn ofynnol i unigolion dalu am eu cwrs ymwybyddiaeth o gyffuriau er mwyn sicrhau eu bod yn ysgwyddo costau darparu'r ymyriad hwn, yn hytrach na'r trethdalwr. Telir am y cwrs 'am bris cost', ond hoffem archwilio pa mor ymarferol a dymunol fyddai i unigolyn dalu amdano 'uwchlaw pris cost'.
30. Pe na bai unigolyn yn mynd ar y cwrs, byddai'n ofynnol iddo dalu cosb benodedig fwy na chost cwrs ymwybyddiaeth. Caiff y gosb ei phennu ar lefel a fydd yn cymell unigolyn i fynd ar y cwrs. Os na fydd yn talu, caiff y ddirwy ei chofrestru yn y llys ar gyfer camau gorfodi neu erlyn am y drosedd wreiddiol.

Cyrsiau ymwybyddiaeth o gyffuriau

31. Mae llawer o heddluoedd eisoes yn atgyfeirio unigolion at gyrsiau ymwybyddiaeth o gyffuriau, yn bennaf drwy ddarparwyr trydydd parti. Ceir tystiolaeth gadarnhaol bod cyrsiau ymwybyddiaeth o gyffuriau yn effeithiol o ran lleihau'r defnydd o gyffuriau ac aildroseddu yn y tymor byr ac maent yn ddefnydd cadarnhaol o adnoddau i ddelio â throseddu ar lefel is. Fodd bynnag, nid ydym yn gwybod cymaint am ansawdd ac effeithiolrwydd cyffredinol y cyrsiau sydd ar gael yn y farchnad ar hyn o bryd ac felly hoffem adeiladu ar y sylfaen dystiolaeth hon er mwyn deall yn well pa mor effeithiol yw cyrsiau ymwybyddiaeth o gyffuriau a arweinir gan yr heddlu yn y DU. Rydym hefyd yn awyddus i glywed safbwyntiau ynghylch i ba raddau y gellir neu y dylid teilwra'r cyrsiau hyn i wahanol grwpiau o ddefnyddwyr cyffuriau (er enghraifft, yn ôl math o gyffur, ffactorau sy'n annog pobl i ddefnyddio cyffuriau, a throseddwyr tro cyntaf neu aildroseddwyr).¹⁷
32. Byddai gennym hefyd ddiddordeb mewn ceisio safbwyntiau ar y rhan y gallai'r llywodraeth ei chwarae i hwyluso cynnig cenedlaethol neu gyfres o safonau ar gyfer cwrs ymwybyddiaeth o gyffuriau y gellid ei gyflwyno i bob heddlu. Rydym yn gwahodd ymatebion i'n hymngynghoriad yn unol â hynny.

¹⁷ Mae'r ffynonellau a ddefnyddiwyd i'w gweld yn Atodiad B.

Cynnal cyrsiau


33. Mae heddluoedd sydd eisoes yn cynnal cyrsiau ymwybyddiaeth o gyffuriau yn gwneud hynny drwy'r drefn sydd eisoes yn bodoli ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys ac yn benodol drwy benderfyniadau cymunedol. Fodd bynnag, rydym yn pryderu nad yw hyn yn cynnig digon o gyfle i sicrhau canlyniadau ystyrlon, yn enwedig os bydd yr unigolyn yn dewis peidio â mynd ar gwrs ymwybyddiaeth.
34. O'r herwydd, rydym am gyflwyno cwrs ymwybyddiaeth haen 1 drwy hysbysiad cosb benodedig newydd a phwrpasol o'r enw Hysbysiad Gorfodi Cyffuriau. Rydym yn disgrifio'r cynigion ar gyfer hyn isod a hoffem wahodd sylwadau drwy ein hymgyngoriad.

Hysbysiad Gorfodi Cyffuriau

35. Gan adeiladu ar y trefniadau presennol ar gyfer hysbysiadau cosb benodedig, byddai Hysbysiad Gorfodi Cyffuriau yn rhoi swm cosb benodedig i unigolyn. Drwy dalu am gwrs ymwybyddiaeth o gyffuriau a'i gwblhau'n llwyddiannus, ni fyddai angen i unigolyn dalu'r gosb. Er mwyn rhoi Hysbysiad Gorfodi Cyffuriau, byddai angen bod gan swyddog heddlu reswm dros gredu bod yr unigolyn wedi cyflawni Trosedd Berthnasol, gan gynnwys digon o dystiolaeth i ategu erlyniad llwyddiannus.
36. Pe na bai unigolyn yn mynd ar y cwrs, byddai'n rhaid iddo dalu swm llawn y gosb. Os na chaiff y gosb benodedig ei thalu, byddai'r swm yn cael ei gofrestru'n awtomatig â'r llys a byddai modd ei orfodi fel dirwy. Byddai'r heddlu hefyd yn cadw'r disgrisiwn i arestio a chyhuddo unigolyn am y drosedd wreiddiol. Rydym yn cynnig, lle mai opsiwn arall unigolyn fyddai wynebu cael ei arestio a'i gyhuddo, y bydd cymhelliad i dalu am gwrs ymwybyddiaeth o gyffuriau a'i gwblhau.
37. Ni fyddai angen i'r unigolyn gyfaddef ei fod yn euog er mwyn i'r heddlu roi Hysbysiad Gorfodi Cyffuriau ac ni fyddai mynd ar y cwrs na thalu'r gosb benodedig yn gyfystyr â chyfaddef ei fod yn euog. Gallai unigolyn ddewis cael ei roi ar brawf am y drosedd yn hytrach na mynd ar y cwrs neu dalu'r gosb benodedig.
38. Ni fyddai'r Hysbysiad Gorfodi Cyffuriau yn rhan o gofnod troseddol unigolyn. Ond gan fod Trosedd Berthnasol yn drosedd gofnodadwy, byddai cofnod yn cael ei wneud ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu a gallai gael ei datgelu fel rhan o archwiliad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Pennod 3: Haen 2

Haen 2 Rhybudd dargyfeiriol gan yr heddlu



Cyflwyniad

39. Bydd unigolion na fyddant yn newid eu hymddygiad ac a gaiff eu dal yn cyflawni Trosedd Berthnasol am yr ail waith yn symud ymlaen i Haen 2 ac yn wynebu canlyniadau pellach.
40. Bydd Haen 2 yn cael ei chyflwyno drwy'r fframwaith datrysiadau y tu allan i'r llys o dan Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 (**Deddf yr Heddlu a Throseddu**). Fodd bynnag, er mwyn cefnogi'r drefn bresennol o dan Ddeddf yr Heddlu a Throseddu, rydym yn cynnig y caiff pwerau newydd eu cyflwyno i'r heddlu a fydd yn galluogi cynnal profion cyffuriau ar unigolion.
41. O dan haen 2, bydd yn ofynnol i'r unigolyn gael o leiaf un ymyriad newid ymddygiad adsefydlol. Mae rhagor o fanylion i'w gweld isod.

Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 a rhybuddiadau

42. Mae'r llywodraeth wedi bod yn ymrwymedig ers tro i sicrhau bod y system cyfiawnder troseddol yn cynnig ymatebion effeithiol a chyflym sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gamau cynnar troseddu. Mae datrysiadau y tu allan i'r llys yn dal yn offeryn pwysig yn hyn o beth. Er mwyn cael rhybuddiad o dan drefn Deddf yr Heddlu a Throseddu, rhaid i nifer o amodau gael eu bodloni, gan gynnwys bod digon o dystiolaeth i gyhuddo'r unigolyn o'r drosedd, bod yr unigolyn wedi cyfaddef iddo gyflawni'r drosedd, a chydsyniad yr unigolyn i roi'r rhybuddiad iddo. Mae hyn yn caniatáu i'r heddlu ddelio'n brydlon â throseddau lefel isel heb fynd i'r llysoedd, sy'n golygu y gall swyddogion dreulio mwy o amser ar ddyletswyddau rheng flaen yn mynd i'r afael â throseddau difrifol eraill.
43. Mae defnyddio datrysiadau y tu allan i'r llys hefyd yn rhan bwysig o ymateb y llywodraeth i fynd i'r afael â gwahaniaethau yn y system cyfiawnder troseddol. Mae cynllun gweithredu Prydain Gynhwysol, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022 mewn ymateb i adroddiad y Comisiwn ar Wahaniaethau ar sail Hil ac Ethnigrwydd, yn ymrwymo i ehangu datrysiadau y tu allan i'r llys drwy ddarparu £9 miliwn o gyllid, a fydd yn parhau eleni.
44. Ddiwedd 2017, cyhoeddodd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu strategaeth er mwyn helpu heddluoedd i newid i strwythur dwy haen ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys. Mae Deddf yr Heddlu a Throseddu yn rhoi'r strwythur dwy haen ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys ar sail ddeddfwriaethol gyda rhybuddiadau cymunedol a rhybuddion dargyfeiriol.
45. Gall yr heddlu hefyd roi datrysiad ar wahân am drosedd drwy benderfyniad cymunedol. Mae'r rhain yn anstatudol a dylid eu defnyddio ar gyfer troseddau lefel is. Fodd bynnag, ni fyddem yn ystyried bod penderfyniadau cymunedol yn briodol i'w defnyddio yn haen 2 y fframwaith newydd arfaethedig hwn, o gofio y byddai unigolyn wedi cael ymyriad haen 1 o'r blaen.

Cynigion newydd ar brofion cyffuriau gorfodol

46. Bydd haen 2 ein fframwaith newydd arfaethedig yn cael ei chyflwyno drwy'r drefn rhybuddiadau fel y nodir yn Neddf yr Heddlu a Throsedd.
47. O dan haen 2, rydym yn cynnig y caiff unigolion gynnig rhybuddiad dargyfeiriol gyda phrofion cyffuriau gorfodol. Byddai angen i unigolyn fynd i leoliad penodol a chael prawf cyffuriau ar nifer o achlysuron gwahanol dros gyfnod penodedig o amser. Byddai lleoliad profi yn lleol i'r unigolyn, gan olygu i bob pwrpas na fyddai modd iddo deithio dramor yn ystod y cyfnod hwn. Ein nod yw hwyluso'r broses o adsefydlu'r unigolyn drwy fonitro a yw wedi parhau i ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon, gan gyfuno profion cyffuriau ag o leiaf un ymyriad newid ymddygiad ar yr un pryd.
48. Byddai'r amod profi gorfodol ar waith am gyfnod penodol, heb fod yn hwy na thri mis. Er y bydd yr apwyntiadau ar gyfer profion cyffuriau yn cael eu gwneud ar hap, er mwyn sicrhau na fydd unigolion yn osgoi cyffuriau am y diwrnodau cyn y prawf yn unig, byddai'r unigolyn yn cael tua 24 awr o rybudd ymlaen llaw.

Ymyriadau ychwanegol

49. Ceir rhywfaint o dystiolaeth gadarnhaol bod profion cyffuriau yn fwy tebygol o arwain at lai o ddefnydd o gyffuriau neu aildrosedd os cânt eu cynnal ochr yn ochr ag ymyriadau iechyd ehangach ac mewn amgylchedd cadarnhaol. O ystyried hyn, rydym yn cynnig cyfuno gofyniad profion cyffuriau ag ymyriad newid ymddygiad. Gallai hyn olygu ailadrodd cwrs ymwybyddiaeth o gyffuriau byrdymor arall y bydd yr unigolyn yn talu amdano (fel o dan haen 1), neu ymyriad newid ymddygiad tymor hwy. Nifer cymharol fach o astudiaethau cadarn o brofion cyffuriau gorfodol sydd ar gael, felly hoffem adeiladu ar y sylfaen dystiolaeth bresennol.¹⁸
50. Rydym yn ymwybodol bod sawl heddlu yn cynnal ymyriadau newid ymddygiad tymor canolig i hirdymor ar hyn o bryd, fel Checkpoint (Durham), Turning Point (Metropolitan), a DIVERT (Gorllewin Canolbarth Lloegr). Mae gennym ddiddordeb mawr o hyd yn yr ymdrechion y mae heddluoedd eisoes yn eu gwneud i ddatblygu'r dystiolaeth ar effeithiolrwydd y cynlluniau hyn. Rydym yn gofyn am safbwyntiau drwy'r ymgynghoriad ynghylch sut y gellid defnyddio cynlluniau o'r fath o dan haen 2, gan gynnwys cyfuno â gofyniad profion cyffuriau.


Sanctiynau am beidio â chydymffurfio

51. Os bydd unigolyn yn methu â bodloni amodau rhybuddiad dargyfeiriol a roddwyd fel rhan o haen 2, a fyddai'n cynnwys prawf positif yn ystod cyfnod o brofion cyffuriau gorfodol, dylai fod yn agored i gael ei arestio a'i gyhuddo o'r Drosedd Berthnasol wreiddiol.

¹⁸ Mae'r ffynonellau a ddefnyddiwyd i'w gweld yn Atodiad B.

Pennod 4: Haen 3

Haen 3 Gorchymyn Llys



Cyflwyniad

52. Haen 3 yw'r haen olaf yn y fframwaith newydd hwn. Yn gyffredinol, bydd yn berthnasol pan fydd unigolion eisoes wedi cael ymyriad drwy haen 1 a haen 2.
53. Yn haen 3, dylid cyhuddo'r unigolyn o'r Drosedd Berthnasol gan mai dyma'r trydydd tro iddo ddod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol am fod â chyffuriau yn ei feddiant, fwy na thebyg.
54. Yn ogystal â hynny, byddem hefyd yn cynnig cyflwyno gorchymyn llys sifil newydd ar haen 3, a elwir yn Orchymyn Lleihau Cyffuriau.

Gorchymyn Lleihau Cyffuriau

55. Erbyn i unigolyn gyrraedd haen 3, bydd y ffaith ei fod wedi dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol dro ar ôl tro am fod â chyffuriau yn ei feddiant yn awgrymu y gall fod angen ymyriad mwy sylweddol. Dyna pam rydym yn cynnig cyflwyno Gorchymyn Lleihau Cyffuriau.
56. Byddai gan y llys y pŵer i roi Gorchymyn Lleihau Cyffuriau i rywun pan fydd wedi'i gael yn euog o Drosedd Berthnasol. Dylai fod gan y llys ddisgresiwn i allu rhoi Gorchymyn Lleihau Cyffuriau os bydd sail resymol dros gredu y byddai'r gorchymyn yn helpu i atal yr unigolyn rhag cyflawni rhagor o droseddau meddiant cyffuriau a/neu atal y risg o niwed sy'n gysylltiedig â throseddu pellach o'r fath.
57. Fel yn haen 1 a haen 2, byddai disgwyl i unigolion unwaith eto fynd ar gwrs ymwybyddiaeth o gyffuriau, a thalu amdano, fel rhan o'r gorchymyn. Yn ogystal â hynny, byddai un neu fwy o'r pedwar ymyriad canlynol ynghlwm wrth Orchymyn Lleihau Cyffuriau, yn amodol ar farn y llys ynghylch y ffordd orau o atal rhagor o droseddu:
 - Gorchymyn Gwahardd
 - Tag Cyffuriau
 - Atafaelu Pasbort
 - Anghymhwyso Trwydded Yrru

Gorchymyn Gwahardd

58. Gallai'r cyfyngiad hwn wahardd unigolyn rhag mynd i ardal benodol am gyfnod penodedig, er enghraifft, lleoliad penodol yn yr economi liw nos neu ardal ddaearyddol ehangach yn ystod cyfnodau penodedig. Gellid defnyddio'r cyfyngiad, lle bo hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur, i atal rhagor o droseddau meddiant cyffuriau os, er enghraifft, bydd tystiolaeth bod cyfyngu ar bresenoldeb troseddwr mewn lleoliadau penodol yn ystod adegau penodol yn debygol o'i atal rhag defnyddio cyffuriau yn y dyfodol.
59. Rydym yn awyddus i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth ar orchmynion gwahardd er mwyn deall eu heffaith yn well. Nifer cymharol fach o astudiaethau o effeithiolrwydd gorchmynion gwahardd neu waharddiadau tebyg ar gyfer troseddau sy'n ymwneud â chyffuriau sydd wedi cael eu cwblhau, yn enwedig ar gyfer defnyddwyr adloniadol fel y'u gelwir. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn cyflwyno darlun cymysg, gyda rhai astudiaethau'n dangos canlyniadau cadarnhaol, ac eraill yn nodi cynnydd mewn troseddu ar ôl cael gwaharddiad. Mae rhai astudiaethau hefyd yn awgrymu y gall gorchmynion gwahardd arwain at effaith dadleoli lle y bydd troseddwr yn mynd i rywle arall i droseddu.¹⁹

Tag Cyffuriau

60. Gallai fod yn ofynnol i unigolyn wisgo monitor cyffuriau am gyfnod a bennir gan y llys a fyddai'n rhoi gwybod a yw'r unigolyn wedi cymryd cyffuriau. Gellid defnyddio'r cyfyngiad, lle bo hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur, i atal rhagor o droseddau meddiant cyffuriau os, er enghraifft, bydd tystiolaeth bod monitro rheolaidd yn debygol o'i atal rhag defnyddio cyffuriau yn y dyfodol.
61. Mae synwryddion monitro cyffuriau y gellir eu gwisgo yn amrywio o ran aeddfedrwydd technolegol a pharodrwydd ar gyfer y farchnad. Mae technolegau y gellir eu gwisgo ar gyfer monitro gweithrediadau ffisiolegol, cyffuriau a'u metabolynnau wedi cynyddu'n gyflym i'w defnyddio ym meysydd gofal iechyd a pherfformiad mewn chwaraeon. Fodd bynnag, mae technolegau sy'n mesur cyffuriau eu hunain mewn ffordd fwy cywir yn gemegol yn llai datblygedig o lawer ar hyn o bryd. Mae'r llywodraeth yn awyddus i asesu'r awydd masnachol i arloesi mewn synwryddion cyffuriau y gellir eu gwisgo a byddai'n croesawu rhagor o safbwyntiau, gan gynnwys enghreifftiau o wledydd tramor.
62. O ystyried sefyllfa dechnolegol monitorau cyffuriau, nid yw'n syndod nad oes astudiaethau mawr o dagiau cyffuriau. Fodd bynnag, rydym yn awyddus i newid hyn. Ceir tystiolaeth gymharol a chadarnhaol sy'n dangos y gall monitro alcohol helpu i leihau'r defnydd o alcohol ac aildroseddu, gyda chyfraddau cydymffurfio uchel iawn wrth i'r tag gael ei wisgo. Fodd bynnag, ceir rhywfaint o dystiolaeth sy'n awgrymu mai cyfyngedig yw effaith tagiau alcohol ar aildroseddu yn y tymor hwy.²⁰

¹⁹ Mae'r ffynonellau a ddefnyddiwyd i'w gweld yn Atodiad B.

²⁰ Ibid.

Atafaelu Pasbort

63. Gallai pasbort unigolyn o'r DU gael ei atafaelu am gyfnod a bennir gan y llys. Gellir defnyddio'r cyfyngiad hwn lle bo hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur.
64. Byddai llys yn gorchymyn i unigolyn ildio ei basbort mewn gorsaf heddlu briodol. Byddai'r heddlu wedyn yn hysbysu Swyddfa Basbort Ei Mawrhydi i sicrhau na ellid gwneud cais am basbort newydd er mwyn osgoi'r Gorchymyn Lleihau Cyffuriau.

Anghymhwysio Trwydded Yrru

65. Gallai person gael ei anghymhwysio rhag meddu ar drwydded yrru yn y DU. Gellid defnyddio'r cyfyngiad hwn, lle bo hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur, i atal troseddau meddiant cyffuriau yn y dyfodol os, er enghraifft, bydd tystiolaeth bod gyrru'n debygol o arwain at ddefnyddio cyffuriau yn y dyfodol ac y byddai anghymhwysio yn atal hynny.
66. O ganlyniad i'r amod hwn, byddai'r drwydded yrru yn cael ei thrin fel pe bai wedi'i diddymu. Ar ddiwedd y cyfnod anghymhwysio, fel y'i pennir gan y llys, byddai angen i unigolyn adnewyddu ei drwydded.

Cyfnodau amser

67. Y llys a fyddai'n penderfynu am ba hyd y byddai unigolyn yn ddarostyngedig i amod a osodwyd gan Orchymyn Lleihau Cyffuriau, a hynny ar sail amgylchiadau'r achos. Fodd bynnag, rydym yn cynnig y dylid pennu cyfnod byrraf a chyfnod hwyaf statudol fel a ganlyn, yn seiliedig ar bwerau tebyg sydd eisoes ar gael yn y system cyfiawnder troseddol.

Amod Gorchymyn Lleihau Cyffuriau	Cyfnod Byrraf	Cyfnod Hwyaf
Gorchymyn Gwahardd	Dim cyfnod byrraf	12 mis
Tag Cyffuriau	Dim cyfnod byrraf	4 mis
Atafaelu Pasbort	3 mis	24 mis
Anghymhwysio Trwydded Yrru	3 mis	24 mis

Canlyniadau am dorri Gorchymyn Lleihau Cyffuriau

68. Dylid ystyried bod torri Gorchymyn Lleihau Cyffuriau, fel torri unrhyw orchymyn llys, yn fater difrifol. Felly, yn hytrach na thrin y mater fel dirmyg llys, rydym yn cynnig y dylid ystyried bod torri gorchymyn yn drosedd ar wahân a all arwain at ddedfryd o garchar.

Pennod 5: Arferion gorau gweithredol a diwygiadau newydd ar gyfer Profion Cyffuriau ar ôl Arestio neu Gyhuddo

Cyflwyniad

69. Gan symud y tu hwnt i'r fframwaith tair haen, mae'r Bennod hon yn edrych ar heriau gweithredol ehangach.
70. Mae canlyniadau llymach i ddefnyddwyr cyffuriau adloniadol yn elfen allweddol o'n gwaith i leihau'r galw am gyffuriau. Rydym yn cydnabod y bydd hyn yn golygu cynyddu nifer yr unigolion a gaiff eu dal am fod â chyffuriau yn eu meddiant a gwella ein dealltwriaeth o'r ffordd orau o ddelio â'r unigolion hynny sy'n defnyddio cyffuriau yn breifat o bosibl, gan olygu y gallant fod yn llai tebygol o ddod ar draws yr heddlu. Yn ogystal â'r mesurau yn y papur gwyn hwn, rydym hefyd yn cynnig uwchgynhadledd sy'n dod â phlisma, diwydiant a chymdeithas yn ehangach at ei gilydd i archwilio beth arall y gellir ei wneud i fynd i'r afael â defnydd adloniadol o gyffuriau.
71. Rydym eisoes wedi dechrau sicrhau bod gan yr heddlu ddigon o bwerau i ganfod defnyddwyr cyffuriau adloniadol, fel y'u gelwir, a mynd i'r afael â nhw. Er enghraifft, yn ddiweddar rydym wedi cyhoeddi newidiadau i'r drefn Gorchymyn Gwaharddiad Pêl-droed, ac rydym hefyd yn cynnig diwygiadau newydd i bwerau ar gyfer profion cyffuriau ar ôl arestio. Manylir ar y ddau isod.

Gorchymynion Gwaharddiad Pêl-droed

72. Mae Gorchymynion Gwaharddiad Pêl-droed yn offeryn pwysig sy'n helpu i atal ac anghymell anhrefn sy'n gysylltiedig â phêl-droed. Mae gweithgarwch gweithredol diweddar gan bartneriaid gorfodi'r gyfraith wedi datgelu bod defnyddio cocên mewn gemau pêl-droed yn hybu ymddygiad treisgar yn gynyddol. Rydym ni a'r heddlu'n glir bod yn rhaid i ni wrthdroi'r duedd sy'n golygu bod defnyddio cyffuriau'n dod yn dderbyniol yn y lleoliadau hyn, i bob golwg.
73. Yn ddiweddar, mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd cwmpas Gorchymynion Gwaharddiad Pêl-droed yn cael ei ehangu i gynnwys pobl mewn gemau pêl-droed a gaiff eu dal â chyffuriau dosbarth A yn eu meddiant. Pan fyddwn wedi gwneud y newid hwn, bydd modd gwahardd cefnogwyr a gaiff eu dal yn cymryd cyffuriau mewn gemau pêl-droed rhag mynd i gemau yn y dyfodol, gan anfon neges glir y bydd yr heddlu'n mynd i'r afael â'r hyn a elwir yn ddefnyddio cyffuriau adloniadol ble bynnag y bydd yn digwydd.

Profion Cyffuriau ar ôl Arestio

74. Mae Profion Cyffuriau ar ôl Arestio yn ffordd o adnabod defnyddwyr heroin, cocên a chrac cocên o blith y rhai a gaiff eu harestio am amrywiaeth o droseddau meddiangar yn bennaf (megis dwyn neu ladrata).²¹ Yn dilyn prawf cyffuriau positif, gellid ei gwneud yn ofynnol i'r unigolyn gael asesiad cyffuriau cychwynnol a, phe na bai'n gwneud hynny, byddai'n cael ei arestio. Byddai'r system cyfiawnder troseddol yn parhau i ddelio â'r unigolyn mewn perthynas â'r drosedd y cafodd ei arestio mewn cysylltiad â hi yn y lle cyntaf. Mae Profion Cyffuriau ar ôl Arestio yn helpu i ganfod pobl y gall eu defnydd o gyffuriau gyfrannu at eu hymddygiad troseddol. Felly, mae'n gyfle i drin a lleihau eu defnydd o gyffuriau, a lleihau troseddu yn y dyfodol o bosibl, drwy eu helpu i newid eu hymddygiad. Bydd hyn yn parhau i fod wrth wraidd ein dull gweithredu mewn perthynas â Phroffion Cyffuriau ar ôl Arestio yn y dyfodol.
75. Mae gwybodaeth weithredol yn awgrymu bod cyfraddau'r Profion Cyffuriau ar ôl Arestio a/neu gyhuddiadau y rhoddir gwybod i'r Swyddfa Gartref amdanynt wedi gostwng yn sylweddol dros gyfnod o 10 mlynedd neu fwy, a bod rhai heddluoedd wedi rhoi'r gorau i brofi'n gyfan gwbl. Ers y llynedd, rydym wedi dechrau ailfuddsoddi mewn Profion Cyffuriau ar ôl Arestio ac rydym yn gweld yr arwyddion cyntaf o newid, gyda mwy o heddluoedd yn dweud eu bod yn cynnal profion. Bydd ein buddsoddiad o £5 miliwn y flwyddyn dros y tair blynedd nesaf yn golygu y bydd y duedd hon yn parhau, a bydd pob heddlu'n cael o leiaf £50,000 i roi hwb i'w raglenni profi am gyffuriau.
76. Gan ein bod yn canolbwyntio ar leihau'r galw am gyffuriau, rhaid i ni achub ar unrhyw gyfle i gyrraedd unigolion a rhoi'r ymyriadau cywir ar waith. Felly, mae'n bwysig ystyried Profion Cyffuriau ar ôl Arestio ochr yn ochr â'r diwygiadau eraill a amlinellir yn y papur hwn, oherwydd byddwn yn gweld gwahanol fathau o ddefnyddwyr yn ymuno â'r system. O'r herwydd, rydym yn cynnig y diwygiadau canlynol a ddisgrifir isod:
- Ehangu'r mathau o gyffuriau y gellir profi amdanynt i gynnwys ystod ehangach o gyffuriau dosbarth A.
 - Ehangu'r mathau o gyffuriau y gellir profi amdanynt i gynnwys cyffuriau mewn dosbarthiadau eraill lle bo hynny'n berthnasol.
 - Ehangu nifer y troseddau sbardun sy'n gallu arwain at broffion cyffuriau ar ôl arestio.

²¹ Mae adrannau 63B a 63C o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 ("PACE") yn galluogi'r heddlu i gynnal profion cyffuriau dan amgylchiadau penodol pan gaiff unigolyn ei arestio neu ei gyhuddo.

Diwygiadau i Brofion Cyffuriau ar ôl Arestio

Ehangu cyffuriau dosbarth A

77. Byddwn yn ystyried ehangu'r ystod o gyffuriau dosbarth A y gellir profi amdanynt o dan ddeddfwriaeth Profion Cyffuriau ar ôl Arestio,²² er mwyn sicrhau y gellir cyfeirio unigolion at driniaeth, neu ymyriad perthnasol arall, ni waeth pa sylwedd sy'n cael ei ddefnyddio. Bydd hyn yn galw am is-ddeddfwriaeth.
